# Adroddiad Blynyddol

# Safonau'r Gymraeg

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

# 2024 – 2025

**Paratowyd yn unol â gofynion**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**Ebrill 2025**

This document is also available in English.

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **3** |
| **2.0** | **Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad** | **4** |
| **3.0** | **Crynodeb** | **6** |
| 3.1 | Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn | 6 |
| 3.2 | Edrych i'r Dyfodol | 8 |
| **4.0** | **Gwybodaeth am y flwyddyn 2024-2025** | **9** |
| 4.1 | Ein Llais Cymraeg | 9 |
| 4.2 | Datblygiadau Digidol | 9 |
| 4.3 | Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir | 10 |
| 4.4 | Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2025 | 10 |
| 4.5 | Dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae 2024 | 10 |
| 4.6 | Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg – Comisiynydd y Gymraeg | 10 |
| 4.7 | Teclyn Sgiliau Cymraeg a Negeseuon E-bost | 11 |
| 4.8 | Logo Iaith Gwaith ar e-bost | 11 |
| 4.9 | Gwaith Cyfieithu | 11 |
| 4.10 | Cyfieithu ar y pryd | 11 |
| 4.11 | Gwersi Cymraeg | 12 |
| 4.12 | Annog siaradwyr Cymraeg | 11 |
| 4.13 | Sgiliau Cymraeg y Staff | 14 |
| 4.14 | Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn | 18 |
| 4.15 | Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd | 20 |
| 4.16 | Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor | 22 |
| **5.0.** | **Cadw Cofnodion** | **29** |
| 5.1 | Cwynion | 29 |
| 5.2 | Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg | 29 |
| **6.0** | **Casgliad** | **30** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw dangos i ba raddau mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2024-2025, a'r gwaith a wnaed i'w bodloni.

1.2 Rydym yn hynod falch o'r llu o ddatblygiadau a llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn - cyflwynir rhagor o wybodaeth amdanynt yng nghrombil y ddogfen hon.

## 2.0 Cefndir / Cyd-destun yr Adroddiad

2.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, na fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

2.2 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar y Cyngor, ymhlith sefydliadau eraill, i gydymffurfio â Safonau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae gan y Cyngor 167 o Safonau i gydymffurfio â nhw yn y meysydd a ganlyn – Cyflenwi Gwasanaethau, Gweithredu, Llunio Polisi, Hybu, a Chadw Cofnodion. Mae'r Safonau i'w gweld ar ein gwefan.

2.3 Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai'r Cyngor drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (gan ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn bywyd bob dydd).

2.4 Pwrpas y Safonau yw:

- rhoi mwy o eglurder i sefydliadau ar eu dyletswyddau am yr iaith Gymraeg
- rhoi mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y medrant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o wasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd.

2.5 Mae Safonau'r Gymraeg yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a gymeradwywyd gyntaf gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 23 Gorffennaf 1997, ac a ddiwygiwyd ar 14 Mai 2004 ac yna ar 23 Ebrill 2009.

2.6 Mae'r adroddiad monitro hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn camau gweithredu a thargedau'n deillio o Safonau'r Gymraeg. Casglwyd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiad hwn o ganlyniad i'r monitro parhaus y mae'r Cyngor yn ei wneud.

### 2.7 Ein Llais Cymraeg

2.7.1 Yn ystod 2024-2025, lansiodd y Cyngor Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg newydd o'r enw Ein Llais Cymraeg.

2.7.2 Mae'r broses o gyhoeddi a gweithredu strategaeth sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn statudol, sy'n ofynnol o dan y gyfraith, ond nid dyma pam rydym yn gwneud hyn. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy yn Gyngor dwyieithog ac rydym yn angerddol ynglŷn â chefnogi pobl. Mae ein strategaeth yn adeiladu ar ein harferion da blaenorol ac yn eu hymgorffori yn ogystal ag ymgorffori'r hyn rydym wedi ei ddysgu o'r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog y bu i ni gymryd rhan ynddi y llynedd.

2.7.3 Mae'r Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni. Ein hiaith ni yw'r Gymraeg ac mae'n perthyn i ni i gyd. Mae'n rhan o'n hanes, ein treftadaeth a'n diwylliant. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg y maent yn ei wybod, o le bynnag maen nhw'n dod a lle bynnag maen nhw'n byw ar hyn o bryd.

## 2.8 Atebolrwydd

2.8.1 Rheolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu a'r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg sy'n gyfrifol am ysgrifennu'r ddogfen hon. Yna, mae hi'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau ac yna i aelodau'r Cabinet i'w chymeradwyo.

2.8.2 Ar ôl ei chymeradwyo, mae'r ddogfen hon ar gael i'r cyhoedd yn swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor ac ar ei wefan. Mae'r ddogfen hefyd yn cael ei chylchredeg i'r gwasanaethau unigol i gyd ac yn ogystal â hyn, cyhoeddir gwybodaeth am yr adroddiad monitro cyffredinol ynghyd â'r argymhellion ar y fewnrwyd a'i dosbarthu drwy gyfrwng negeseuon ar y system negeseuon mewnol a'r Newyddlen Staff. Bydd dolen gyswllt i'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda staff derbynfeydd y Cyngor a byddwn yn rhoi gwybod i drigolion Conwy amdani.

## 3.0 Crynodeb

### 3.1 Cynnydd / Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

3.1.1 Rydym yn falch o fedru adrodd ar nifer o ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn. Mae sawl ymgyrch wedi golygu bod cynnydd yn nifer y cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg a'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r sgiliau hynny mewn bywyd bob dydd. Dyma grynodeb ohonynt:

a) **Ein Llais Cymraeg** – Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi a dechrau gweithredu strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg newydd, sef Ein Llais Cymraeg. Mae hi'n ddogfen statudol, sy'n ofynnol o dan y gyfraith, ond nid dyma pam rydym yn gwneud hyn. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn falch o'n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy yn Gyngor dwyieithog ac rydym yn angerddol ynglŷn â chefnogi pobl. Mae ein strategaeth yn adeiladu ar ein harferion da blaenorol ac yn eu hymgorffori yn ogystal ag ymgorffori'r hyn rydym wedi ei ddysgu o'r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog y bu i ni gymryd rhan ynddi y llynedd. Rydym yn cydweithio'n agos iawn gyda'r Gwasanaeth Marchnata a Chyfathrebu i roi llawer o'r camau gweithredu ar waith.

b) **Gwefan y Gymraeg yng Nghonwy** – Ddwy flynedd yn ôl fe wnaethom ni ddatblygu tudalen newydd sbon ar wefan ganolog y sir am addysg Gymraeg. Rydym bellach wedi ychwanegu sawl rhan ati am bob math o wahanol elfennau am y Gymraeg yng Nghonwy ac rydym yn bwriadu ei datblygu ymhellach hefyd. Mae dolen i'r wefan yn cael lle blaenllaw ar frig hafan dudalen y Cyngor. Mae nifer o wahanol adrannau fel gwybodaeth am Safonau'r Gymraeg, Ein Llais Cymraeg, Addysg Gymraeg, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Cymraeg i Oedolion a Phartneriaid sy'n gweithio gyda ni i gynyddu'r cyfleoedd i fyw bywydau drwy'r Gymraeg a chael cyfleoedd i siarad Cymraeg a gwneud gweithgareddau yn Gymraeg yng Nghonwy.

c) **Cynllun Cymraeg Gwaith** – Fel rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith yn 2024-2025, manteisiodd 78 aelod o staff ac 1 Cynghorydd ar ddarpariaeth Cymraeg Gwaith gyda chyswllt tiwtor. Cynhaliwyd pedwar cwrs yn ystod y flwyddyn o dan arweiniad tiwtor ar lefel Mynediad, Canolradd ac Uwch. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd tri chwrs cyfunol 50/50 ar lefel mynediad 1 a 2. Fel rhan o'r cynllun, mae gan staff y Cyngor fynediad, am ddim, at sawl cwrs Blasu, 5 awr o hyd, sy'n cael eu cwblhau'n annibynnol ar-lein. Roedd hi'n galonogol gweld cymaint wedi cofrestru a nifer wedi cwblhau'r cwrs Blasu yn ystod y flwyddyn.

ch) **Cynllun Sgwrsio** – Dair blynedd yn ôl, fe wnaethom sefydlu ein Cynllun Sgwrsio sef cynllun i roi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau wrth sgwrsio'n rheolaidd gyda siaradwr Cymraeg rhugl. Mae rhai parau sgwrsio wedi bod yn rhan o'r cynllun ers ei sefydlu. Yn ddiweddar, bu un pâr fu'n rhan o'r Cynllun Sgwrsio ers y dechrau ac sy'n sgwrsio'n ddi-ffael bron bob wythnos yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf yn sgwrsio â dysgwyr yn ein dosbarthiadau Sylfaen ac Uwch am eu profiadau nhw o'r cynllun er mwyn eu hannog i gymryd rhan ynddo. Fe wnaethom hefyd holi Cynghorwyr a staff y Cyngor am wirfoddolwyr i sgwrsio gyda'n dysgwyr, a chawsom lu o ymatebion. Mae 2 bâr newydd ddechrau sgwrsio a bydd 14 pâr arall yn cychwyn sgwrsio â'i gilydd yn ystod yr wythnosau nesaf wrth iddynt symud ymlaen i'r cwrs nesaf.

d) **Arholiadau Defnyddio'r Gymraeg CBAC** – Ym mis Mehefin 2024 a Ionawr 2025 fe wnaeth 9 aelod o staff sefyll a phasio arholiadau Defnyddio'r Gymraeg ar lefel Mynediad. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd!

dd) **Sgiliau Cymraeg y Staff** – Diweddarwyd meini prawf lefelau sgiliau Cymraeg y staff er mwyn bod mwy o eglurder yn perthyn iddynt. Bellach, mae'n rhaid i bob aelod staff sy'n

hunanasesu eu hunain ar lefel 0 ddilyn cyrsiau Blasu ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn medru symud i lefel 1. Eisoes, gwelir bod canran y staff ar lefel 0 wedi haneru ers y llynedd. Roedd 24% o’r staff wedi hunanasesu eu hunain ar lefel 0 y llynedd, gyda ffigwr tebyg ers rhai blynyddoedd ond erbyn hyn, mae’r ffigwr wedi gostwng i 12%, sy’n newyddion ardderchog.

e) **Creu Fforwm Ein Llais Cymraeg –** Rydym yn bwriadu cyfuno Fforwm Iaith Menter Iaith Conwy a Grŵp Strategol y Gymraeg Cyngor Conwy a ffurfio Fforwm Ein Llais Cymraeg. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal cyfarfod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ar yr un diwrnod pan fo angen cyfarfod o’r CSGA. Y gobaith yw y bydd hyn yn golygu llai o ddyblygiad rhwng cyfarfodydd tebyg gyda’r un aelodau, yn fwy effeithlon ac hefyd yn sicrhau tryloywder, deallusrwydd ac atebolrwydd ymysg yr holl ran-ddeiliaid.

**f) Cyfieithu ysgrifenedig** – Dros y chwe blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi’u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu’n sylweddol. Mae ein deunydd ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser, boed ar gyfer y cyhoedd neu’n fewnol ar gyfer staff. Mae staff Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu bob amser wrth law i gynorthwyo staff gyda chyfieithu eu dogfennau neu brawf-ddarllen eu cyfieithiadau os ydynt wedi llunio’r Gymraeg eu hunain ac eisiau gwirio ei fod yn gywir.

**ff Cyfieithu ar y pryd** – Mae ein cyfarfodydd cyhoeddus yn parhau i gael eu cynnal o aml-leoliad sy’n golygu bellach bod mynychwyr ein cyfarfodydd cyhoeddus yn medru bod yn Siambr y Cyngor ym Modlondeb neu ar-lein yn ystod pob cyfarfod, ac mae’r rhai sy’n dymuno gwrando ar y cyfieithiad yn medru gwneud hynny drwy’r pensetiau arferol yn y siambr neu drwy Zoom ar-lein. Mae nifer y cyfarfodydd yr ydym yn cyfieithu ar y pryd ynddynt a chyfanswm y Gymraeg a glywir yn ein cyfarfodydd hefyd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

**g) Annog siaradwyr Cymraeg** – Rydym bob amser yn annog ein staff a’n Cynghorwyr i ddefnyddio’r Gymraeg sydd ganddynt ac rydym hefyd yn croesawu staff a Chynghorwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn cyfarfodydd. Bu mwy o staff a Chynghorwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus dros y flwyddyn ddiwethaf, sy’n wych.

## 3.2 Edrych i'r Dyfodol

3.2.1 Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu datblygu'r materion a ganlyn, ymysg llu o ddatblygiadau llai:

**a) Gweithredu Ein Llais Cymraeg** – Rydym yn edrych ymlaen at roi mwy o gamau gweithredu Ein Llais Cymraeg ar waith er mwyn darparu hyd yn oed mwy o gyfleoedd i bawb gael byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**b) Fforwm Ein Llais Cymraeg** – Rydym yn edrych ymlaen yn arw at ddatblygu'r Fforwm newydd dros y misoedd nesaf.

**c) Siambr newydd yng Nghoed Pella –** Bydd ein swyddfa ym Modlondeb yn cau ym mis Mai 2025, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at gynnal ein cyfarfodydd o'r Siambr newydd yng Nghoed Pella.

**ch) Gwersi Cymraeg -** Rydym yn edrych ymlaen yn arw iawn at gynnal ein gwersi o gartref newydd yr ystafell ddosbarth Cymraeg yng Nghoed Pella o fis Mehefin ymlaen. Mae gennym restr aros helaeth unwaith yn rhagor felly bydd cwrs Mynediad 1 Cyfunol (ar-lein) yn cychwyn ar ôl y Pasg a bydd cwrs Mynediad 1 wythnosol yn cychwyn ym mis Medi 2025. Bydd dilyniant yn cael ei gynnig i'r dosbarthiadau presennol i gyd, gan gynnwys cwrs cyfunol lefel Sylfaen. O ganlyniad, 2025-2026 fydd y flwyddyn gyntaf ers dechrau'r cynllun lle bydd y ddarpariaeth yn cynnwys dosbarthiadau ar lefel Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch ar yr un pryd sy'n newyddion gwych i'r Cyngor. Mae'n wych gweld cymaint o staff y Cyngor a Chynghorwyr yn dysgu Cymraeg ac edrychwn ymlaen at weld eu llwyddiannau dros y flwyddyn nesaf.

## 4.0 Gwybodaeth am y flwyddyn 2024-2025

### 4.1 Ein Llais Cymraeg

4.1.1 Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi a dechrau gweithredu strategaeth hyrwyddo’r Gymraeg newydd, sef Ein Llais Cymraeg. Mae hi’n ddogfen statudol, sy’n ofynnol o dan y gyfraith, ond nid dyma pam rydym yn gwneud hyn. Rydym yn gwneud hyn gan ein bod yn falch o’n diwylliant Cymreig ac yn falch fod Conwy yn Gyngor dwyieithog ac rydym yn angerddol ynglŷn â chefnogi pobl. Mae ein strategaeth yn adeiladu ar ein harferion da blaenorol ac yn eu hymgorffori yn ogystal ag ymgorffori’r hyn rydym wedi ei ddysgu o’r rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog y bu i ni gymryd rhan ynddi. Rydym yn cydweithio’n agos iawn gyda’r Gwasanaeth Marchnata a Chyfathrebu i roi llawer o’r camau gweithredu ar waith.

4.1.2 Mae’r Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni. Ein hiaith ni yw’r Gymraeg ac mae’n perthyn i ni i gyd. Mae’n rhan o’n hanes, ein treftadaeth a’n diwylliant. Fe hoffem ni i bawb ymuno â ni, waeth faint o Gymraeg y maent yn ei wybod, o le bynnag maen nhw’n dod a lle bynnag maen nhw’n byw ar hyn o bryd yn sir Conwy.

4.1.3 Mae tair prif thema i'r strategaeth, sef Y Teulu, Y Gweithle a’r Gymuned, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu a diwallu’r nodau ac amcanion yr ydym wedi’u llunio o dan bob thema.

### 4.2 Datblygiadau digidol

4.2.1 **Tudalen Facebook** – Mae gennym dudalen Facebook o’r enw Cymraeg i Bawb – Conwy. Bwriad y dudalen ydi hyrwyddo a dathlu’r Gymraeg yn y sir. Mae’r dudalen yn postio’n rheolaidd, ac yn rhannu cynnwys gwreiddiol yn ogystal â gwybodaeth gan fudiadau eraill megis Comisiynydd y Gymraeg, Menter Iaith, Yr Urdd a llawer mwy.

4.2.2 **Sianel Dysgu Cymraeg ar Teams** – Mae gennym sianel ar Microsoft Teams o’r enw ‘Dysgu Cymraeg’. Mae’r sianel ar gyfer staff y Cyngor sy’n mynychu gwersi Cymraeg mewnol y Cyngor. Y Tiwtor Cymraeg sy’n rheoli’r dudalen ond mae gan Swyddog Hyrwyddo a Datblygu’r Gymraeg hefyd fynediad at y sianel er mwyn rhannu gwybodaeth am y Gymraeg gyda’r dysgwyr, e.e. Band y Mis, gwybodaeth am gyfleoedd i ymarfer Cymraeg yn y gwaith a thu hwnt ac ati.

4.2.3 **Gwefan y Gymraeg yng Nghonwy** – Ddwy flynedd yn ôl fe wnaethom ni ddatblygu tudalen newydd sbon ar wefan ganolog y sir am addysg Gymraeg. Rydym bellach wedi ychwanegu sawl rhan ati am bob math o wahanol elfennau am y Gymraeg yng Nghonwy ac rydym yn bwriadu ei datblygu ymhellach hefyd. Mae dolen i'r wefan yn cael lle blaenllaw ar frig hafan dudalen y Cyngor. Mae nifer o wahanol adrannau fel gwybodaeth am Safonau’r Gymraeg, Ein Llais Cymraeg, Addysg Gymraeg, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, Cymraeg i Oedolion a Phartneriaid sy’n gweithio gyda ni i gynyddu’r cyfleoedd i fyw bywydau drwy’r Gymraeg a chael cyfleoedd i siarad Cymraeg a gwneud gweithgareddau yn Gymraeg yng Nghonwy.

4.2.4 **Gwybodaeth ddefnyddiol i ddysgwyr** – Mae yna adran ‘Dysgu Cymraeg’ ar y fewnrwyd sy’n cynnwys gwybodaeth am gynllun Cymraeg Gwaith y Cyngor, y gwersi Cymraeg ac unrhyw wybodaeth ddefnyddiol i ddysgwyr. Byddwn yn parhau i ddatblygu’r adran hon yn ystod y flwyddyn nesaf drwy ychwanegu mwy o wybodaeth am adnoddau, gwefannau ac apiau defnyddiol i ddysgwyr.

**4.3 Datblygu Cysylltiadau gydag Ysgolion Cynradd y Sir**

4.3.1 Mae Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg yn parhau i gysylltu'n rheolaidd gyda'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd yn y sir. Ceir gwybodaeth am ychydig o'r gwaith isod.

**4.4 Dathlu Dydd Miwsig Cymru 2025**

4.4.1 Ar 7 Chwefror eleni, roedd hi'n Ddydd Miwsig Cymru. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am y diwrnod, penderfynwyd creu rhestr chwarae fer gyda 6 chân Gymraeg i'r ysgolion ei rhannu gyda'r disgyblion a gofyn i'r disgyblion bleidleisio am eu hoff gân. Y bwriad oedd hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru a'i gwneud hi ychydig yn haws i staff ysgolion drwy ddewis y caneuon drostynt. Cafodd y caneuon a dolen i'r holiadur eu gosod ar boster a'u rhannu gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd dros e-bost. Fe wnaeth 18 ysgol gynradd yn y sir gymryd rhan yn y prosiect eleni, sy'n llawer uwch nag y llynedd ac yn galonogol iawn. Cafwyd 177 ymateb i'r holiadur, 134 (75.7%) yn ateb fel unigolion, 40 (22.6%) yn ateb fel dosbarth a 3 (1.7%) yn ateb fel ysgol. Mae hyn yn golygu bod miloedd o blant a phobl ifanc ar draws y sir wedi cymryd rhan yn nathliadau Dydd Miwsig Cymru unwaith eto eleni. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan yr athrawon ac roedden nhw'n gwerthfawrogi'r rhestr chwarae yn fawr. Braf hefyd oedd gweld ysgolion na wnaeth gymryd rhan y llynedd yn cymryd rhan eleni. Cafwyd sylwadau gwych gan rai o'r disgyblion hefyd.

4.4.2 Rhannwyd dolen i restri chwarae Spotify Llywodraeth Cymru efo holl staff y Cyngor dros e-bost mewnol ar y diwrnod hefyd a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.

**4.5 Dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae 2024**

4.5.1 Diwrnod hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg yng Nghymru yw Diwrnod Shwmae Su'mae. Mae Diwrnod Shwmae Su'mae yn cael ei ddathlu bob blwyddyn ar 15 Hydref. Rhannwyd neges ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor a neges fewnol i staff yn annog pobl i gychwyn sgwrs yn Gymraeg gyda chopi o bosteri 'Say it in Cymraeg' y Mentrau Iaith oedd yn cynnwys geirfa Gymraeg i'w defnyddio yn y swyddfa, y caffi, y dafarn, y siop ac mewn cyfarfod.

**4.6 Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg – Comisiynydd y Gymraeg**

4.6.1 Cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' eto eleni dros bythefnos, rhwng 25 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2024. Bwriad yr ymgyrch oedd hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg yn ogystal â chodi hyder a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg. Fe wnaeth Gwasanaeth TG y Cyngor osod cefndir ar fwrdd gwaith pawb yn y Cyngor oedd yn hysbysebu'r ymgyrch a bod y Gymraeg yn perthyn i bawb. Rhannwyd negeseuon mewnol i staff dros e-bost yn ogystal â negeseuon ar gyfrifon cymdeithasol y Cyngor dros y bythefnos, gan gynnwys neges am ein strategaeth hyrwyddo'r Gymraeg newydd - Ein Llais Cymraeg.

## 4.7 Teclyn Sgiliau Cymraeg a Negeseuon E-bost

4.7.1 Bu'r teclyn hwn ar waith ers blynyddoedd maith bellach, ac mae'n parhau i fod yn llwyddiannus iawn. Drwy gymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, mae'r Teclyn Sgiliau Cymraeg wedi'i gysylltu â'r rhestr staff sydd â chyfrif e-bost. Felly, os ydi aelod o staff yn ysgrifennu neges e-bost at aelod arall o staff y Cyngor, a bod yr aelod hwnnw o staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, bydd neges yn ymddangos uwchben ei enw ar y neges yn dweud: "Rydw i'n siarad Cymraeg / I can speak ". Rydym yn ceisio datblygu'r teclyn hwn ar gyfer dysgwyr bellach hefyd.

4.7.2 Mae'r teclyn o gymorth mawr i staff y Cyngor wrth gyfathrebu â staff eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws o lawer gwybod beth yw sgiliau Cymraeg y staff yr ydych yn cysylltu â nhw.

## 4.8 Logo Iaith Gwaith/Brawddeg ar waelod e-bost

4.8.1 Mae staff sy'n medru'r Gymraeg yn cynnwys logo ar waelod eu llofnod e-bost i adael i gwsmeriaid a chydweithwyr wybod eu bod yn medru'r Gymraeg. Yn yr un modd, rydym wedi datblygu logo ar gyfer dysgwyr sy'n nodi 'Dw i'n dysgu Cymraeg'. Mae nifer fawr o ddysgwyr wedi cynnwys y logo hwn ar waelod eu llofnod e-bost.

4.8.2 Yn unol â'r Safonau, mae gennym frawddeg ar waelod pob neges e-bost ers cychwyn y Safonau yn nodi na fydd derbyn negeseuon yn Gymraeg yn peri unrhyw oedi wrth ymateb i'r neges. Er mwyn sicrhau bod y neges yn cael ei chynnwys ar bob cyfrif, mae'r neges honno'n rhan awtomatig o bob neges sy'n gadael pob un o gyfrifon e-bost y Cyngor.

## 4.9 Gwaith Cyfieithu

4.9.1 Dros y chwe blynedd diwethaf, mae nifer y geiriau ydym ni wedi'u cyfieithu ar gyfer Cyngor Conwy wedi parhau i gynyddu'n sylweddol. Mae ein deunydd ysgrifenedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg bob amser, boed ar gyfer y cyhoedd neu'n fewnol ar gyfer staff. Mae staff Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu bob amser wrth law i gynorthwyo staff gyda chyfieithu eu dogfennau neu brawfddarllen eu cyfieithiadau os ydynt wedi llunio'r Gymraeg eu hunain ac eisiau gwirio ei fod yn gywir.

## 4.10 Cyfieithu ar y pryd

4.10.1 Mae ein cyfarfodydd cyhoeddus yn parhau i gael eu cynnal o aml-leoliad sy'n golygu bellach bod mynychwyr ein cyfarfodydd cyhoeddus yn medru bod yn Siambr y Cyngor ym Modlondeb neu ar-lein yn ystod pob cyfarfod, ac mae'r rhai sy'n dymuno gwrando ar y cyfieithiad yn medru gwneud hynny drwy'r pensetiau arferol yn y siambr neu drwy Zoom ar-lein. Mae nifer y cyfarfodydd yr ydym yn cyfieithu ar y pryd ynddynt a chyfanswm y Gymraeg a glywir yn ein cyfarfodydd hefyd wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 4.11 Annog siaradwyr Cymraeg

4.11.1 Rydym bob amser yn annog ein staff a'n Cynghorwyr i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt ac rydym hefyd yn croesawu staff a Chynghorwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg mewn

cyfarfodydd.  Bu mwy o staff a Chynghorwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roeddem yn falch iawn o weld hynny.

### 4.12 Gwersi Cymraeg

4.12.1 Nod y Cynllun Cymraeg Gwaith yw cryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle.  Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i ddatblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

4.12.2 Fel rhan o’r cynllun Cymraeg Gwaith yn 2024-2025, manteisiodd 78 aelod o staff ac 1 Cynghorydd ar ddarpariaeth Cymraeg Gwaith gyda chyswllt tiwtor. Cynhaliwyd pedwar cwrs yn ystod y flwyddyn o dan arweiniad tiwtor ar lefel Mynediad, Canolradd ac Uwch. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd tri chwrs cyfunol 50/50 ar lefel mynediad 1 a 2. Fel rhan o’r cynllun, mae gan staff y Cyngor fynediad, am ddim, at sawl cwrs Blasu, 5 awr o hyd, sy'n cael eu cwblhau’n annibynnol ar-lein. Roedd hi’n galonogol gweld cymaint wedi cofrestru a nifer wedi cwblhau’r cwrs Blasu yn ystod y flwyddyn.

4.12.3 Mae pob dosbarth yn y Cynllun yn cynnwys amrediad eang o staff o wahanol adrannau’r Cyngor, gyda nifer fawr o’r staff yn gweithio yng ngwasanaethau rheng-flaen y Cyngor fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Addysg, Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a’r Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae pob dosbarth hefyd yn cynnwys unigolion o wahanol haenau o awdurdod yn y Cyngor ac eleni cafwyd cynnydd yn nifer y penaethiaid gwasanaeth a rheolwyr sy’n mynychu cyrsiau, yn bennaf yn sgil datblygiad y cwrs Cyfunol 50/50.

4.12.4 Dyma dabl yn dangos sawl aelod o staff ym mhob gwasanaeth yn y Cyngor, a oedd yn dysgu ar y gwahanol lefelau ar ddiwedd Ionawr, 2025.

| Gwasanaeth | Mynediad 1 | Mynediad 2 | Canolradd | Uwch | Cyfanswm y staff |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran y Prif Weithredwr | | 1 | | | **1** |
| Addysg | 1 | | 2 | | **3** |
| Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | 3 | 1 | 1 | 1 | **6** |
| Archwilio Mewnol | | | | | **0** |
| Economi a Diwylliant | 4 | 2 | 3 | 2 | **11** |
| Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol | | | 1 | | **1** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion | 7 | 7 | 1 | 1 | **16** |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant | 4 | | | | **4** |
| Pobl a Pherfformiad | 2 | 1 | 1 | 1 | **5** |
| Refeniw a Budd-daliadau | | | 1 | 1 | **2** |
| Rheoleiddio a Thai | 1 | 1 | 1 | 2 | **5** |
| Tai Strategol | | | | 1 | **1** |
| Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | 1 | 2 | 2 | 1 | **6** |
| Y Gyfraith a Llywodraethu | 1 | | | | **1** |
| Cynghorwyr | | 1 | | | **1** |

| CYFANSWM | 24 | 16 | 13 | 10 | 63 |
|---|---|---|---|---|---|

4.12.5 Cyrsiau Blasu Cymraeg Gwaith: Yn ystod 2024-2025 mae 26 unigolyn wedi cofrestru ar 37 cwrs Blasu, sy'n cael eu cwblhau yn annibynnol ar-lein. O'r 37 cwrs mae 19 cwrs wedi eu cwblhau, a'r gweddill wedi eu cwblhau yn rhannol. Rydym yn parhau i fonitro'r cyrsiau hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pob unigolyn wnaeth gofrestru ar gwrs yn cwblhau o leiaf 1 cwrs 5 awr. Mae 6 unigolyn o'r 37 wedi cwblhau 2 gwrs 5 awr. Bydd y gweddill yn cael eu hannog i gwblhau'r cyrsiau hefyd. Mae'r cyrsiau Blasu ar gael am ddim i staff y Cyngor ac yn ychwanegol at y ddarpariaeth sy'n cael ei harwain gan y tiwtor. Disgwylir i bawb eu cwblhau ymhen deufis ar ôl cofrestru. Mae'r nifer wnaeth gofrestru ar gyfer y Cyrsiau Blasu eleni yn is na'r llynedd, ond mae'r cyfraddau cwblhau yn well. Mae nifer o aelodau staff wedi cael gwybodaeth am gofrestru a chwblhau'r cyrsiau Blasu hyn wrth i'r Cyngor symud tuag at gael gwared ar lefel 0 o'r tabl sgiliau Cymraeg, felly disgwylir i'r lefelau cwblhau hyn gynyddu yn ystod y flwyddyn nesaf wrth i ni annog a chynorthwyo mwyfwy o staff i symud o ddim gallu Cymraeg i o leiaf lefel 1 (Mynediad) yn y Gymraeg.

4.12.6 **Gwersi wythnosol o dan arweiniad tiwtor** – Mae pob gwers tair awr o dan arweiniad tiwtor yn cynnwys elfennau o adolygu gwaith blaenorol, cyflwyno gwaith newydd ac ymarfer patrymau iaith drwy weithgareddau amrywiol, sy'n sicrhau cyfleoedd i'r dysgwyr sgwrsio'n rhydd mewn awyrgylch gweithgar, hwyliog a diogel. Rydym yn darparu rhwng 90 ac 120 awr o ddysgu bob blwyddyn.

4.12.7 **Gwersi cyfunol 50/50** – Ar gwrs cyfunol mae'r dysgwyr yn mynychu gwersi 3 awr o dan arweiniad tiwtor ac yn astudio'n annibynnol am gyfwerth a thair awr bob yn ail wythnos. Mae pob gwers tair awr o dan arweiniad tiwtor yn cynnwys elfennau o adolygu gwaith blaenorol, cyflwyno gwaith newydd ac ymarfer patrymau iaith drwy weithgaredd amrywiol, sy'n sicrhau cyfleoedd i'r dysgwyr sgwrsio'n rhydd mewn awyrgylch gweithgar, hwyliog a diogel.

4.12.8 **Gwersi un-i-un** – Eleni, rydym wedi datblygu ein darpariaeth un-i-un a bellach mae Arweinydd y Cyngor, Pennaeth Gwasanaeth y Gyfraith a Llywodraethu a Phennaeth Gwasanaeth Pobl a Pherfformiad yn mynychu sesiynau un-i-un bob wythnos. Mae'r cyrsiau un-i-un yma yn awr a chwarter o hyd. Cynigiwyd 36 sesiwn yn ystod y flwyddyn, sy'n gyfwerth â 45 awr o gyswllt gyda thiwtor, ar lefel Mynediad 2, Mynediad 1 a Chanolradd. Mae'r sesiynau yma yn cael eu teilwra yn benodol ar gyfer yr unigolion o dan sylw, ac mewn un achos yn cynnwys elfen o astudio annibynnol yn defnyddio adnoddau cwrs Cyfunol Cymraeg Gwaith lefel mynediad.

4.12.9 Mae'r Cynllun Cymraeg Gwaith yn fuddsoddiad hollol amhrisiadwy i'r Cyngor, heb sôn am y gwerth personol i'r staff a'r Cynghorwyr sy'n rhan ohono, ac rydym yn hynod ddiolchgar, unwaith yn rhagor, i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am y buddsoddiad hwn. Rydym yn ymfalchïo bod llwyddiant ein dysgwyr yn y cyrsiau hyn yn cyfrannu mewn ffordd fechan, ond pwysig iawn, tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac wrth gwrs yn cyfoethogi'n gallu ni fel Cyngor i gynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd. Ar ddiwedd pob blwyddyn, rydym yn anfon holiadur at bob dysgwr sy'n rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith. Roedd hi'n wych gweld cymaint wedi ateb yn Gymraeg eleni, hyd yn oed y rhai sydd newydd gychwyn ar eu taith ar lefel Mynediad. Roedd hi'n wych gweld brwdfrydedd a mwynhad pawb o'u gwersi Cymraeg eleni yn disgleirio drwy eu hadborth a chael darllen am eu cynnydd a'u llwyddiant. Wrth gwrs, rhaid canmol pob un o'r dysgwyr, hyd yn oed y rhai sydd newydd ddechrau, am fynd ati i ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddynt hyd yn hyn, boed hynny gyda chydweithwyr, dros y ffôn, gyda'u cwsmeriaid neu hyd yn oed mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

4.12.10 Dair blynedd yn ôl, fe wnaethom sefydlu ein Cynllun Sgwrsio sef cynllun i roi cyfle i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau wrth sgwrsio’n rheolaidd gyda siaradwr Cymraeg rhugl. Mae rhai parau sgwrsio wedi bod yn rhan o’r cynllun ers ei sefydlu. Yn ddiweddar, bu un pâr fu’n rhan o’r Cynllun Sgwrsio ers y dechrau ac sy’n sgwrsio’n ddi-ffael bron bob wythnos yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf yn sgwrsio â dysgwyr yn ein dosbarthiadau Sylfaen ac Uwch am eu profiadau nhw o’r cynllun er mwyn eu hannog i gymryd rhan ynddo. Fe wnaethom hefyd holi Cynghorwyr a staff y Cyngor am wirfoddolwyr i sgwrsio gyda’n dysgwyr, a chawsom lu o ymatebion. Rydym yn ddiolchgar iawn i staff a Chynghorwyr am roi o’u hamser prin i helpu ein dysgwyr. Mae 2 bâr newydd ddechrau sgwrsio a bydd 14 pâr arall yn cychwyn sgwrsio â’i gilydd yn ystod yr wythnosau nesaf wrth iddynt symud ymlaen i’r cwrs nesaf.

**4.13 Sgiliau Cymraeg y Staff**

4.13.1 Diweddarwyd meini prawf lefelau sgiliau Cymraeg y staff er mwyn bod mwy o eglurder yn perthyn iddynt. Bellach, mae’n rhaid i bob aelod staff sy’n hunanasesu eu hunain ar lefel 0 ddilyn cyrsiau Blasu ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn medru symud i lefel 1. Er y bydd hyn yn cymryd ychydig amser i'w wireddu’n llawn, y gobaith yw y bydd staff y Cyngor i gyd yn meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg ac na fydd lefel 0 yn bodoli ymhen amser.

4.13.2 Mae pob aelod staff wnaeth hunanasesu eu sgiliau fel lefel 0 wedi cael gwybodaeth am sut i gofrestru ar gyrsiau blasu yn ystod yr wythnosau diwethaf, felly edrychwn ymlaen at adrodd am lefelau cwblhau pellach y flwyddyn nesaf.

4.13.3 Byddwn yn monitro’r cofrestriadau a’r lefelau cwblhau hyn yn rheolaidd.

4.13.4 Ers datblygu teclyn sy’n ymddangos ar gyfrifiaduron pawb sy’n medru casglu gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff gyda’r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, bu gwelliant yng nghywirdeb cofnodi ystadegau sgiliau ieithyddol staff. Bellach, mae pob aelod o staff y Cyngor yn medru defnyddio’r teclyn hwn, ac rydym, gyda chymorth y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi casglu gwybodaeth am bob aelod o staff erbyn hyn, gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt fynediad i’r fewnrwyd. Ac eithrio ysgolion, a staff sy’n gweithio i awdurdodau eraill, mae’r awdurdod yn cyflogi 1,719 o staff parhaol. Dyma fanylion sgiliau Cymraeg y 1,719 o staff sydd wedi llenwi gwybodaeth am eu sgiliau Cymraeg:

**Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor:**

| **Gwrando / Siarad** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 204 | 12 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 668 | 39 |
| Lefel 2 | | 222 | 13 |
| Lefel 3 | | 128 | 7 |
| Lefel 4 | RHUGL | 175 | 10 |
| Lefel 5 | | 322 | 19 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,719** | |

| **Darllen / Deall** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 251 | 15 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 625 | 36 |
| Lefel 2 | | 221 | 13 |
| Lefel 3 | | 128 | 7 |
| Lefel 4 | RHUGL | 183 | 11 |
| Lefel 5 | | 311 | 18 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,719** | |

| **Ysgrifennu** | | | |
|---|---|---|---|
| Lefel | | Nifer y staff | % |
| Lefel 0 | | 426 | 25 |
| Lefel 1 | DYSGU CYMRAEG | 560 | 33 |
| Lefel 2 | | 210 | 12 |
| Lefel 3 | | 142 | 8 |
| Lefel 4 | RHUGL | 137 | 8 |
| Lefel 5 | | 244 | 14 |
| | | | |
| **CYFANSWM** | | **1,719** | |

4.13.5 Mae staff y Cyngor wedi defnyddio’r teclyn ar y fewnrwyd i nodi eu sgiliau Cymraeg gan ddefnyddio’r tabl a welir ym Mholisi’r Gymraeg.

4.13.6 Gwelir bod cynnydd bychan yn nifer y staff - 497 aelod o staff (29%) wnaeth nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl (lefel 4 a 5) eleni, sy’n gynnydd o 3% o ffigyrau’r llynedd. Roedd cynnydd o 8% yng nghanran y staff sy’n meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg rhwng lefel 1 a lefel 3 hefyd, sy’n 59% eleni (51% y llynedd).

4.13.7 Nid yw’r lefelau ysgrifennu wedi codi ar yr un raddfa, ond nid yw hynny’n peri problem gan fod gan y Cyngor wasanaeth cyfieithu mawr rhagorol sydd wrth law i gynorthwyo staff gyda chyfieithu eu gwaith bob amser.

4.13.8 Yn bennaf oherwydd ein cam gweithredu i egluro’r lefelau yn well a chael gwared ar lefel 0 o’r tabl sgiliau, gwelir bod canran y staff ar lefel 0 wedi haneru ers y llynedd. Roedd 24% o’r staff wedi hunanasesu eu hunain ar lefel 0 y llynedd, gyda ffigwr tebyg ers rhai blynyddoedd ond erbyn hyn, mae’r ffigwr wedi gostwng i 12%, sy’n newyddion ardderchog.

4.13.9 Gellir gweld y dadansoddiad o sgiliau Cymraeg yr Uwch Dîm Rheoli fesul gwasanaeth isod.

**Sgiliau Cymraeg Uwch Dîm Rheoli’r Cyngor:**

| Gwasanaeth | Cyfanswm y staff | Nifer sy’n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5) | Canran sy’n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5) | Nifer sy’n dysgu Cymraeg neu sy’n meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3) | Canran sy’n dysgu Cymraeg neu sy’n meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3) | Nifer nad oes ganddynt unrhyw allu Cymraeg (Lefel 0) | Canran nad oes ganddynt unrhyw allu Cymraeg (Lefel 0) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Penaethiaid Gwasanaeth** | 16 | 8 | 50% | 8 | 50% | 0 | 0 |

4.13.10 Mae’n galonogol iawn gweld bod hanner yr Uwch Dîm Rheoli yn siarad Cymraeg yn rhugl, a’r hanner arall i gyd yn meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg neu’n dysgu Cymraeg.

4.13.11 Gellir gweld y dadansoddiad fesul gwasanaeth ar y dudalen nesaf.

**Sgiliau Cymraeg Staff y Cyngor fesul gwasanaeth:**

| **Gwasanaeth** | **Cyfanswm y staff** | **Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)** | **Canran y staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl (Lefelau 4 a 5)** | **Newid canran ers 2023-2024?** | **Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)** | **Canran y staff sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n meddu ar rhywfaint o sgiliau Cymraeg (Lefelau 1, 2 a 3)** | **Newid canran ers 2023-2024?** | **Nifer y staff nad ydynt yn deall unrhyw beth yn Gymraeg (Lefel 0)** | **Canran y staff nad ydynt yn deall unrhyw beth yn Gymraeg (Lefel 0)** | **Newid canran ers 2023-2024?** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran y Prif Weithredwr | 5 | 1 | 20% | -13% | 4 | 80 | +13% | 0 | 0% | Dim newid |
| Addysg | 156 | 59 | 38% | +6% | 76 | 49% | +4% | 21 | 13% | -10% |
| Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau | 227 | 49 | 22% | +4% | 150 | 66% | +13% | 28 | 12% | -17% |
| Archwilio Mewnol | 7 | 1 | 14% | -4% | 6 | 86% | +13% | 0 | 0% | Dim newid |
| Economi a Diwylliant | 265 | 82 | 31% | +4% | 152 | 57% | +9% | 31 | 12% | -14% |
| Gwasanaeth Ariannol Corfforaethol | 39 | 9 | 23% | +6% | 28 | 72% | +4% | 2 | 5% | -10% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion | 456 | 127 | 28% | +4% | 267 | 59% | +9% | 62 | 13% | -14% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant | 185 | 57 | 31% | +5% | 91 | 49% | +11% | 37 | 20% | -15% |
| Pobl a Pherfformiad | 42 | 10 | 24% | Dim newid | 32 | 76% | Dim newid | 0 | 0% | Dim newid |
| Refeniw a Budd-daliadau | 60 | 17 | 29% | Dim newid | 38 | 63% | +2% | 5 | 8% | -2% |
| Rheoleiddio | 102 | 20 | 20% | +2% | 77 | 75% | +3% | 5 | 5% | -5% |
| Tai Strategol | 58 | 17 | 29% | +8% | 34 | 59% | +6% | 7 | 12% | -14% |
| Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid Digidol | 65 | 12 | 18% | -3% | 48 | 74% | +10% | 5 | 8% | -7% |
| Y Gyfraith a Llywodraethu | 52 | 36 | 69% | -7% | 14 | 27% | +7% | 2 | 4% | -2% |
| **CYFANSWM** | **1719** | **497** | **29%** | **+3%** | **1018** | **59%** | **+2%** | **204** | **12%** | **-12%** |

4.13.8 Mae tri gwasanaeth yn adrodd nad oes ganddynt yr un aelod o staff ar lefel 0, h.y. nad ydynt yn meddu ar unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl. Mae pum gwasanaeth arall gyda llai na 10% o staff sy'n hunanasesu fel lefel 0.

4.13.9 Mae'n wych bod canran yr aelodau staff nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg o gwbl wedi gostwng fel a ganlyn:

- y Gwasanaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau wedi gostwng o 29% o'u gwasanaeth y llynedd i 12% eleni;
- y Gwasanaeth Economi a Diwylliant wedi gostwng o 26% y llynedd i 12% eleni;
- y Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion wedi gostwng o 27% y llynedd i 13% eleni;
- y Gwasanaethau Cymdeithasol – Plant wedi gostwng o 35% y llynedd i 20% eleni; a'r
- Gwasanaeth Tai Strategol wedi gostwng o 26% y llynedd i 12% eleni

oherwydd bod nifer o aelodau staff wedi datblygu eu sgiliau o lefel 0 i lefel 1 ac uwch.

## 4.14 Recriwtio - Swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn

4.14.1 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu gan y Cyngor yn cynnwys dynodiad Cymraeg yn hanfodol neu Gymraeg yn ddymunol, ond ymhelaethir ar y brawddegau hyn er mwyn i'r sawl sy'n bwriadu ymgeisio am y swydd wybod yn union i ba raddau mae angen sgiliau Cymraeg. Mae'r brawddegau hyn yn cael eu teilwra wrth hysbysebu ac felly'n benodol i'r swydd sy'n cael ei hysbysebu.

4.14.2 Mae pob swydd sy'n cael ei hysbysebu yn cael ei hanfon at Wasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu er mwyn dod i benderfyniad a ddylid hysbysebu'r swydd fel un lle bo sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd neu lle bo sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Mae sawl agwedd ar y swydd yn cael ei hystyried fel dyletswyddau'r swydd ynghyd â faint o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y tîm dan sylw.

4.14.3 Dyma fanylion am nifer/canran y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle'r oedd y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; a nifer/canran y swyddi ym mhob categori lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

| **Dynodiad** | **Nifer a % fesul categori iaith** | **Nifer a % y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg** |
|---|---|---|
| Hanfodol | 102 swydd (23%) | O’r 90 swydd a recriwtiwyd iddynt, penodwyd siaradwyr Cymraeg (lefel 4 ac uwch) i 90 ohonynt (100%).<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 12 o’r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| Dymunol | 333 swydd (77%) | O’r 323 swydd y recriwtiwyd iddynt, roedd 172 swyddog yn siarad Cymraeg yn rhugl (53%).<br><br>Hyd yn hyn, ni phenodwyd unrhyw un i 10 o’r swyddi hyn gan fod y broses recriwtio yn parhau. |
| **CYFANSWM YM MHOB DYNODIAD** | 435 swydd | Felly, o’r 413 swydd y recriwtiwyd iddynt, penodwyd cyfanswm o 262 o siaradwyr Cymraeg rhugl, sef canran o 63%. |

**4.15 Hyfforddiant Cymraeg a Gyflawnwyd** – Gwelir isod fanylion am nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn Gymraeg i lefel o gymhwyster penodol a nifer y staff a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod 2024-2025.

**4.15.1 Cyrsiau Cymraeg yn y Gweithle**

**T= Tymor**

<table>
<tr><th rowspan="2">Lefel y Cwrs</th><th rowspan="2">Math o Gwrs</th><th rowspan="2">Addas ar gyfer</th><th rowspan="2">Manylion</th><th rowspan="2">Cais</th><th colspan="3">Cyfanswm wnaeth fynychu</th></tr>
<tr><th>T1</th><th>T2</th><th>T3</th></tr>
<tr><td>Uwch 1</td><td></td><td rowspan="11">Y rhai sy’n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau</td><td rowspan="11">Cyrsiau a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2025 ar gyfer pobl sy’n dymuno dysgu Cymraeg.</td><td rowspan="11">Dewis personol y staff</td><td>9</td><td>10</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Mynediad 2</td><td></td><td>5</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Mynediad 2 Cyfunol 50/50</td><td></td><td>13</td><td>16</td><td>12</td></tr>
<tr><td>Mynediad 1 Cyfunol: Wyneb yn Wyneb</td><td></td><td>13</td><td>12</td><td>8</td></tr>
<tr><td>Mynediad 1 Cyfunol: Ar-lein</td><td></td><td>14</td><td>10</td><td>9</td></tr>
<tr><td>Canolradd</td><td></td><td>6</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Canolradd</td><td></td><td>6</td><td>13</td><td>11</td></tr>
<tr><td>Mynediad 1</td><td>Un i Un</td><td>0</td><td>0</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Mynediad 2</td><td>Un i Un</td><td>1</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td>Canolradd</td><td>Un i Un</td><td>1</td><td>1</td><td>1</td></tr>
<tr><td colspan="2">CYFANSWM Wyneb i wyneb / Cyfunol</td><td>68</td><td>63</td><td>53</td></tr>
</table>

**4.15.2 Arholiadau Defnyddio’r Gymraeg – CBAC**

<table>
<tr><th>Arholiad</th><th>Manylion</th><th>Cyfanswm wnaeth sefyll yr arholiadau</th><th>Cyfanswm wnaeth lwyddo yn yr arholiadau</th></tr>
<tr><td>Mynediad</td><td>Mae arholiadau 'Defnyddio'r Gymraeg' CBAC yn asesu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad y rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg, gyda 60% o'r marciau ym mhob arholiad yn cael eu rhoi am y profion siarad. Cynigir arholiadau lefel Sylfaen, Canolradd ac Uwch ym mis Mehefin bob blwyddyn, ac arholiad lefel Mynediad ym mis Mehefin ac ym mis Ionawr bob blwyddyn.</td><td>9</td><td>9</td></tr>
<tr><td colspan="3">CYFANSWM Y NIFER WNAETH LWYDDO YN YR ARHOLIADAU</td><td>9</td></tr>
</table>

### 4.15.4 Amrywiol Gyrsiau a Gynigwyd / Gynhaliwyd yn Gymraeg

| **Cwrs a gynigwyd** | **Sawl cwrs gafodd ei gynnig yn Gymraeg?** | **Cyfanswm wnaeth fynychu** |
|---|---|---|
| Recriwtio Diogel i Reolwyr<br>(Safon 128, (a) recriwtio a chyfweld) | Mae pob cwrs o’r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |
| Rheoli’r Broses Gwerthuso Staff<br>(Safon 128, (b) rheoli perfformiad) | Mae pob cwrs o’r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |
| Rheoli’r Broses Ddisgyblu<br>(Safon 128, (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu) | Mae pob cwrs o’r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |
| Iechyd a Diogelwch Corfforaethol<br>(Safon 128, (dd) iechyd a diogelwch) | Mae pob cwrs o’r fath yn cael ei gynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Ni chafodd yr un cwrs ei gynnal eleni oherwydd nad oedd unrhyw un wedi gwneud cais iddo gael ei gynnal. |

### 4.15.5 Sesiwn Gyflwyno Gorfforaethol / Ymwybyddiaeth Iaith

| **Dyddiad / Hyd y cwrs** | **Addas ar gyfer** | **Manylion** | **Cais** | **Cyfanswm wnaeth fynychu** |
|---|---|---|---|---|
| 30/4/2024 | Aelodau newydd o staff – (Dylai pob aelod o staff newydd fynychu’r cyflwyniad corfforaethol o fewn 6 mis o ddechrau gweithio gyda’r Cyngor.) | Caiff y swyddogion anerchiad gan y Prif Weithredwr, gyda rhan o’r anerchiad yn Gymraeg. Mae rhai o’r cyflwyniadau yn ystod y sesiwn hanner diwrnod yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg, gan gynnwys cyflwyniad gan Wasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu am weithredu Safonau’r Gymraeg, y Cymorth a’r Gefnogaeth sydd ar gael, defnyddio’r Gymraeg yn fewnol ac ymwybyddiaeth a hanes yr iaith **(Staff o amrywiol wasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)** | Gorfodol i bob aelod newydd o staff sy’n cychwyn gweithio gyda’r Cyngor | 44 |
| 19/6/2024 | | | | 39 |
| 26/9/2024 | | | | 36 |
| 15/11/2024 | | | | 40 |
| 10/01/2025 | | | | 35 |
| 07/03/2025 | | | | 24 |
| **CYFANSWM Y NIFER WNAETH FYNYCHU’R CWRS** | | | | **218** |

4.15.6 Gwelir o'r ystadegau uchod bod 218 aelod o staff wedi cael gwybodaeth ymwybyddiaeth iaith eleni.

## 4.16 Diweddariad gan amrywiol Wasanaethau'r Cyngor

### 4.16.1 Prif dderbynfa

4.16.1.1 Lleolir prif dderbynfa/switsfwrdd y Cyngor yng Nghoed Pella, Bae Colwyn. Dynodwyd pob un o swyddi'r brif dderbynfa/switsfwrdd yn rhai Cymraeg hanfodol ac mae pob un o'r 8 aelod o staff (100%) yn siarad Cymraeg.

### 4.16.2 Venue Cymru a Theatr Colwyn

4.16.2.1 Yn ystod Cymryd Rhan, cawsom fwynhau sioeau Cyw yn fyw yn y Theatr gyda gweithdai eraill amrywiol dros y penwythnos fel Criw Celf Bach, Dawns y Glocsen, Gweithdai Cimera (Sgiliau Syrcas), Gweithdai Rownd a Rownd, Deian a Loli, Gweithdai 'Deud O', Mudiad Meithrin, Prifysgol Bangor, Gweithdai Drymio, Only Boys Aloud, Canolbwynt Cyflogaeth Conwy, Yr Urdd, Pobol y Cwm, Opera Cenedlaethol Cymru a Gweithdai Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth Xplore.

4.16.2.2 Gŵyl Gelfyddydau i'r Teulu – cynhaliwyd 9 sesiwn grefftau gyda Lowri Lewis, 3 gweithdy gan y Theatr Genedlaethol, 3 sesiwn Caffi Babis, sesiynau Cimera (sgiliau syrcas), a 2 sesiwn gan Tape Music and Film.

### 4.16.3 Llyfrgelloedd

#### 4.16.3.1 Archifau a Llyfrgell Conwy, Canolfan Ddiwylliant

**a. Archifau:**

- Bu staff yn sgwrsio gydag aelodau'r cyhoedd yn Gymraeg mewn digwyddiadau yn cynnwys Diwrnod Prom Deganwy, yr Ŵyl Hadau a'r Ŵyl Fêl, gan ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg yn ogystal â rhannu taflenni gweithgareddau i blant a thaflenni gwybodaeth dwyieithog.
- Mae gwirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg sy'n gweithio ar brosiect ar y cyd gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn defnyddio Cornel Clipiau Archifau Conwy.
- Cyflwynwyd teithiau Drysau Agored yn ddwyieithog.
- Cyflwynwyd sioe deithiol Archwilio eich Archif ar gyfer pob llyfrgell gymunedol yn ddwyieithog.
- Mae dros 500 o dudalennau o ddeunydd Cymraeg wedi cael eu digideiddio ar gyfer prosiect trawsgrifio gwirfoddolwyr Crowd Cymru.
- Daeth ysgol cyfrwng Cymraeg i ymweld â Chanolfan Ddiwylliant Conwy ar gyfer diwrnod ar themâu'r Tuduriaid a gafodd ei hwyluso'n ddwyieithog.
- Cynhaliodd y Gwasanaeth Archifau arddangosfa yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy gan yr artist Lydia Silver. Ysbrydolwyd y gwaith gan gasgliad clyweledol Archif Ddarlledu Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae casgliad clyweledol digidol cyfan Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar gael i'w gweld mewn terfynellau Cornel Clipiau yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy a Llyfrgell Llanrwst.

**b. Amgueddfeydd:**

- Mae'r Swyddog Amgueddfeydd yn parhau i sgwrsio gydag ymwelwyr, ymateb i negeseuon e-bost a hwyluso a chyflwyno gweithdai a digwyddiadau yn Gymraeg.
- Gweithiodd Ysgol Bod Alaw ar brosiect yn ymdrin â'u cynefin a stori Hanes Pobl Dduon o'r enw 'Y Sefydliad Affricanaidd' gydag artist Affricanaidd a chydag aelodau staff drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynhaliwyd gweithdai creu masgiau a llusernau ar gyfer yr Ŵyl Amgueddfeydd yn ddwyieithog.
- Hwyluswyd gweithdai argraffu bwyell o'r Oes Efydd yn ddwyieithog.

**c. Cyfuno:**

- Cafodd 14 stori o'r sesiynau archifau eu cynnal yn Gymraeg yn ogystal â sesiynau dwyieithog eraill.
- Dathlwyd yr Ŵyl Amgueddfeydd yn Amgueddfa Syr Henry Jones yn Llangernyw gyda digwyddiad hanes a gweithdai celf dwyieithog.
- Cafwyd sesiynau Gwobrau Celf dwyieithog yn Ysgolion Betws-y-coed, Capel Garmon, Cerrigydrudion, Pentrefoelas a Llanfair Talhaearn, ond roedd y gwaith ysgrifenedig i gyd yn Gymraeg. Cynigiwyd sesiynau dwyieithog mewn ardaloedd eraill.
- Cynhaliwyd cwrs Hanes Cymru cynnar i oedolion yn Gymraeg yn Llyfrgell Llanrwst gan Manon Prysor a Rhys Mwyn ym mis Tachwedd / Rhagfyr am 4 wythnos.
- Ail-gynhaliwyd y cwrs yn Gymraeg ym mis Chwefror / Mawrth yn Llanfairfechan ac yn ddwyieithog yn Llyfrgell Llanrwst ym mis Mawrth 2025.
- Grŵp Cam-drin Domestig Aberconwy - cynigiwyd sesiynau creu torchau Nadolig yn ddwyieithog gyda Gwenan Johnson ym mis Rhagfyr.
- Cynigiwyd sesiynau Bwyd Bendigedig Conwy yn ddwyieithog yn Amgueddfa Syr Henry Jones ac rydym yn creu gardd o bethau bwytadwy gydag arian gan y Bartneriaeth Bwyd a Cadwch Gymru'n Daclus.

**ch) Llyfrgelloedd:**

- Mae'r grŵp Darllen i Ddysgwyr yn parhau i fod yn llwyddiannus.
- Mae Clwb Clebran Abergele yn parhau i fynd o nerth i nerth.
- Rydym wedi ail-drefnu'r stoc yn Llyfrgell Abergele ac wedi creu gofod arbennig ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu sy'n dysgu ar hyn o bryd. Cawsom adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid.
- Cynhaliodd Sianeli Marchnata a Chyfryngau Cymdeithasol y Llyfrgell ymgyrch #DefnyddiaDyGymraeg er mwyn annog defnyddwyr i gyfathrebu gyda staff yn Gymraeg bob amser, defnyddio ein llyfrau ac adnoddau Cymraeg ac ymuno â'n grwpiau darllen Cymraeg.
- Cafwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod mis Mawrth 2025, yn dilyn Dydd Gŵyl Dewi i hyrwyddo'r holl adnoddau Cymraeg sydd ar gael yn Llyfrgelloedd Conwy gan gynnwys papurau newydd Cymraeg a chylchgronau drwy Borrowbox, stoc ffuglen a ffeithiol, stoc ar gyfer dysgwyr Cymraeg a mwy.
- Ymweliad myfyrwyr Blwyddyn 3 ar gwrs Gofal Plant Coleg Llandrillo i lyfrgell Bae Penrhyn. Cafodd y myfyrwyr gyfle i edrych ar rai o'n hadnoddau a sesiwn holi ac ateb ar y diwedd.
- Ffrindiau Darllen Llanrwst - Clwb ar gyfer pobl ifanc rhwng 11-15 oed sy'n cyfarfod yn fisol yn Llyfrgell Llanrwst. Ar hyn o bryd, mae 18 unigolyn ifanc yn mynychu'n rheolaidd. Cafwyd ymweliad gan:

    - Bethan Gwanas - Cysylltodd Bethan â Llyfrgell Llanrwst wedi iddi glywed am ein criw Ffrindiau Darllen yn dilyn erthygl a ysgrifennodd am bobl ifanc yn darllen, a'r gostyngiad mewn gwerthiant llyfrau. Gofynnodd am ddod i gyfarfod Medi, Rheolwr Llyfrgell Llanrwst sydd wedi sefydlu'r grŵp, a'r criw er mwyn dod i'w hadnabod, a gweld strwythur Ffrindiau Darllen, gyda'r bwriad o annog sefydliadau/unigolion eraill i redeg sesiynau tebyg.
    - Morgan Dafydd sesiwn am 'Sôn am lyfra'. Mae Morgan Dafydd wedi sefydlu'r blog - 'Sôn am lyfra'. Rhannodd ei brofiad o flogio am lyfrau gyda'r Criw Ffrindiau Darllen gan rannu'r dechneg o adolygu llyfrau. Soniodd hefyd am yr effaith mae adolygiadau da yn ei chael ar werthiant/rediad llyfrau darllen a rhoi enghreifftiau o awduron sydd wedi cysylltu ag o yn dilyn hyn.
    - Y Cyngor Llyfrau - Francesca Sciarrillo – Sesiwn arbennig lle bu i ni wahodd Francesca Sciarrillo o'r Cyngor Llyfrau i gynnal grŵp ffocws. Roedd hon yn sesiwn fywiog iawn lle roedd y cyfranogwyr yn cael eu hannog i rannu eu barn, eu hoffter a'u barn am lyfrau a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd yng Nghymru (yn Gymraeg ac yn Saesneg).
    - Gwasg Carreg Gwalch - Daeth un o staff y Wasg i drafod y nofel 'Galwad yr Alarch', sydd wedi ei chyhoeddi'n Gymraeg fel llyfr dyslecsia gyfeillgar. Roedd y Wasg am godi ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau sydd ganddynt gyda llyfrau plant a phobl ifanc, sy'n annog y darllenydd mewn i'r stori.
- Dangoswyd ffilm Hedd Wyn yn y Neuadd.
- Cafwyd gemau bwrdd Cymraeg newydd ar gyfer y llyfrgelloedd.

**4.16.3.3 Gweithgareddau ac Adnoddau ar gyfer dysgwyr**

- Mae'r llyfrgelloedd yn gadarnle ar gyfer ymarfer Cymraeg ymysg staff a chwsmeriaid. Mae nifer o ddatblygiadau ychwanegol eleni, ynghyd â phrynu Lingo ar gyfer pob llyfrgell ardal.
- Mae ein sesiynau 'Panad a Sgwrs' yn parhau yn llyfrgelloedd Llandudno, Llanrwst ac Abergele. Mae gwahanol gynnwys yn cael ei baratoi ar gyfer y sesiynau. Cynhelir sesiynau gyda themâu gwahanol, a cheir trafodaeth a gwybodaeth am y pwnc dan sylw e.e. Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi.
- Mae'r Cylch Darllen Dysgwyr yn parhau i fod yn llwyddiannus.
- Mae Clwb Clebran Abergele yn parhau i fynd o nerth i nerth.

**4.16.4 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)**

4.16.4.1 Rydym am weld y Gymraeg yn ffynnu. Ein dyhead yw atal y dirywiad a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd i gael addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn sy'n dymuno gwneud hynny, yn ogystal â datblygu a chryfhau sgiliau dwyieithog ar draws pob sector. Ein targed yw cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yng Nghonwy 14% + dros y deng mlynedd er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031. Cawsom flwyddyn gyffrous iawn o ran y Gymraeg mewn Addysg – dyma ychydig o'r prif bwyntiau isod.

**4.16.4.2 Prif Lwyddiannau 2024-2025:**

- Mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sectorau.
- Hyfforddiant o ansawdd ar ddarpariaeth Gymraeg Cwricwlwm i Gymru Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Camau Cynnydd 1-3 ar gyfer pob categori o ysgolion cynradd (gan gynnwys darpariaeth bwrpasol).
- Cynnydd wrth gynllunio ar gyfer cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg mewn Cylchoedd Chwarae (blynyddoedd cynnar).
- Cynnydd cychwynnol ar gyfer cynllunio ysgolion strategol i symud rhai ysgolion ymhellach ar hyd y Continwwm Iaith (gan gynnwys trafodaeth gynnar am gapasiti ysgolion uwchradd).
- Gwaith ar gefnogaeth Siarter Iaith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg gan gynnwys mapio a gwella cefnogaeth darpariaeth allanol (Menter Iaith a'r Urdd).

**4.16.4.3 Camau nesaf fesul deilliant:**

**Deilliant 1**

- Ehangu Dechrau'n Deg - niferoedd cynyddol o fewn Cylchoedd.
- Symud Cynllun Plethu yn ei flaen - cydweithio â'r cylchoedd chwarae.
- Parhad o gynllun ‘Croesi’r Bont’ a chysylltiadau ag ysgolion.
- Cynyddu lleoliadau a all gynnig 'Siop Un Alwad' ar dir yr ysgol.
- Cynlluniau cyfalaf e.e. Morfa Rhianedd.
- Hyrwyddo - gweithio'n agos gyda Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) sydd eisiau arwain ar hyn.

**Deilliant 2**

- Cefnogi holl ysgolion T2 ymhellach i sicrhau bod eu darpariaeth Gymraeg ar darged ar gyfer 50% o'r cwricwlwm. Sicrhau bod marchnata a chyfathrebu â rhan-ddeiliaid yn dryloyw. Defnyddio rhan-ddeiliaid allanol (Yr Urdd/Menter Iaith) i wella darpariaeth achlysurol.
- Cefnogi ychydig o ysgolion ar hyd y Continwwm Iaith e.e. rhai yn symud o T2 i T3 mewn babanod. Sicrhau bod marchnata a chyfathrebu â rhan-ddeiliaid yn dryloyw.
- Cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i wella eu hethos a'u diwylliant Cymreig.
- Gwella mynediad staff traws-sector i ddysgu Cymraeg.
- Cynllunio'n strategol ar wella'r ddarpariaeth Gymraeg i ddysgwyr ar lefel uwchradd.

**Deilliant 3**

- Cynyddu nifer yr ymarferwyr uwchradd sy'n gallu cael cymorth a hyfforddiant i wella eu sgiliau ieithyddol.
- Parhau i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i alluogi dysgwyr i fynychu lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg (hyd yn oed pan nad hon yw eu hysgol agosaf).
- Cefnogi ysgolion i asesu safon y Gymraeg mewn ysgolion yn barhaus a sicrhau cynnydd dysgwyr (waeth beth fo categori’r ysgol).
- Sicrhau bod ysgolion Conwy yn cael eu cefnogi i ddatblygu arferion Siarter Iaith.

- Parhau i ddatblygu cynnig LINC Conwy i alluogi mwy o ddysgwyr ôl-16 i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i astudio Cymraeg ail iaith.

**Deilliant 4**

- Cynyddu nifer yr ymarferwyr uwchradd sy'n gallu cael cymorth a hyfforddiant i wella eu sgiliau ieithyddol.
- Parhau i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i alluogi dysgwyr i fynychu lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg (hyd yn oed pan nad hon yw eu hysgol agosaf).
- Cefnogi ysgolion i asesu safon y Gymraeg mewn ysgolion yn barhaus a sicrhau cynnydd dysgwyr (waeth beth fo categori’r ysgol).
- Parhau i ddatblygu cynnig LINC Conwy i alluogi mwy o ddysgwyr ôl-16 i ddilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ac astudio Cymraeg ail iaith.

**Deilliant 5**

- Yn unol â hunanwerthusiad Conwy, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynllunio gwasanaethau strategol, bydd arian grant o dan Cymraeg 2050 yn cael ei ddyrannu i gefnogi’r dyheadau lefel uchel canlynol:
- Cefnogi ysgolion i asesu safon y Gymraeg mewn ysgolion yn barhaus a sicrhau cynnydd dysgwyr (waeth beth fo categori’r ysgol)
- Sicrhau bod ysgolion Conwy yn cael eu cefnogi i ddatblygu arferion Siarter Iaith.

**Deilliant 6**

- Byddwn yn parhau i ragamcanu niferoedd y dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd angen darpariaeth arbenigol er mwyn llywio cynllunio a datblygu darpariaeth yn y dyfodol.
- Byddwn yn parhau i annog datblygu sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff ADY arbenigol ar draws y sir.

**Deilliant 7**

- Nodi meysydd cymhwysedd iaith i'w datblygu ar draws pob sector.
- Cydweithio gyda Dysgu Cymraeg i ddarparu cynnig pwrpasol pellach os oes angen.

**Data pwysig**

- Plant 3 oed mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg:
  Targed 23-24 = 28%
  Gwirioneddol = 29.8%

- Plant 5 oed mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg:
  Targed 23-24 = 26%
  Gwirioneddol = 26.4%

### 4.16.5 Diweddariadau am gynllun Creu Conwy 2021-2026

- Mae pecyn Creu Conwy 'Defnyddio'r Gymraeg yn eich Busnes' ar gael i'w lawrlwytho ac mae wedi cael ei hyrwyddo drwy fforymau a rhwydweithiau busnes fel Cyrchfan Conwy.
- Mae'r Timau Trefi a ddatblygwyd yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst yn cael eu cefnogi i fod yn ddwyieithog gyda gwasanaethau cyfieithu / cyfieithu ar y pryd yno fel bo angen.
- Mae Gigs y Gaeaf wedi cyflwyno rhaglen eclectig o ddigwyddiadau ar draws y sir. Daeth dros 700 o bobl allan ar nosweithiau oer a thywyll i fwynhau cerddoriaeth fyw yn eu cymunedau. Roedd y perfformiadau'n cynnwys:
  - Cerddoriaeth a dawns werin Gymreig gyda'r band VRï, dan ofal y Dance Collective yn Eglwys y Santes Fair ym Metws-y-coed.
  - Band Al Lewis gyda chefnogaeth Alis Glyn yn Eglwys y Santes Fair yng Nghonwy wedi'i gynnal gan Bwyllgor Aberconwy.
  - Cynhaliodd Underground Artist Movement ddigwyddiad Grime yn eu lleoliad ym Mae Colwyn, gyda Mr Phormula ac artistiaid eraill yn perfformio.
  - Bu Beacons Cymru yn gweithio gyda'r gymuned yn Llanfair Talhaearn i gynnal noson o dalent ifanc Cymreig gyda TewTewTennau a Bau Cat
- Taith: Siwrneiau Creadigol Tuag at Les - Lansio Adnodd. Rydym yn gyffrous i lansio pecyn adnoddau Taith, sydd wedi'i ddatblygu i gefnogi lles meddwl pobl trwy weithgareddau hygyrch ac awgrymiadau creadigol! Cafodd y prosiect ei gynnal mewn partneriaeth gyda chydweithwyr o'r Tîm Lles Meddyliol a Mind Conwy. Drwy gyfres o sesiynau grŵp dan arweiniad artist, mae'r cyfranogwyr wedi cael cyfle i ganfod eu creadigrwydd a sut y gall gefnogi eu lles. Mae'r adnodd ar gael yn ddwyieithog: Diwylliant Conwy | Taith – Siwrneiau Creadigol tuag at Les!

- **Timau Tref**

- Mae'r Timau Tref a gafodd eu datblygu yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst yn cael cefnogaeth i gael eu cynnal yn ddwyieithog gyda gwasanaethau cyfieithu / cyfieithu ar y pryd ar gael fel bo angen. Mae'r cofnodion a'r rhaglenni'n cael eu cyfieithu ac mae'n negeseuon cyfathrebu'n ddwyieithog.
- Mae'r holl ddeunydd marchnata ar gyfer prosiectau yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.
- Roedd y gweithgareddau Cymraeg yn cynnwys:
- Abergele – sesiynau ysgrifennu creadigol yn Gymraeg, 2 ar gyfer ysgolion ac 1 ar gyfer oedolion, sesiwn creu baneri a phypedau a stori yn Ysgol Glan Morfa gyda Manon Prysor, pedwar gweithdy cynganeddu gyda Dr Llion Jones. Map teithiau a phanel dehongli Bwyd Bendigedig Conwy yn ddwyieithog, gweithdy crochenwaith gyda themâu natur yn ddwyieithog gyda Gwreiddiau Gwyllt, cyfieithiad o stori'r Ddraig i'w defnyddio ym mhrosiect Traeth Breuddwydion yn y dyfodol.
- Bae Colwyn - prosiect animeiddio Cymraeg i gefnogi Goleuadau Colwyn mewn partneriaeth gyda TAPE, gweithdai creu llusernau dwyieithog gyda Manon Prysor, gig Pys Melyn yn Gymraeg yn Inc.
- Conwy - panel dehongli dwyieithog yr Archesgob John Williams, gweithdy celf adar yn Gymraeg yn Ysgol Porth y Felin, gweithdy adar dwyieithog

mewn partneriaeth â phrosiect y Carneddau, map a gwefan ddwyieithog ar gyfer taith adar Conwy, gig Gwylim Bowen Rhys yng Nghei Conwy.

- Llandudno - cynhaliodd Dance Collective dwmpath a digwyddiad diwylliannol gyda Gwlad y Basg, 2 weithdy Bocsŵn, 2 gig Cymraeg yn y Clwb Rygbi a lawr grisiau yn Tiffany’s gyda Gai Toms a Morgan Elwy, gweithdy Traeth Breuddwydion dwyieithog yn Ysgol Morfa Rhianedd ac Ysgol Tudno ar gyfer prosiect yn y dyfodol, hanes yr Ail Ryfel Byd ar lafar ar gyfer The Longest Yarn.
- Llanrwst - sinema gymunedol Hedd Wyn yng Nglasdir, Llanast Llanrwst - Sioe Mewn Cymeriad yn Ysgol Bro Gwydir ac Ysgol Dyffryn Conwy, nifer o gigiau Cymraeg yn y dref, gig Cymraeg Dafydd ap Siencyn gyda Celt, a gweithgareddau drwy gydol y penwythnos, arddangosfa mewn ffenest siop wag mewn partneriaeth â siop Bys a Bawd.
- LLENWI - lansio taith gelf - datblygwyd y prosiect o astudiaeth y Gymraeg yn 22/23 ac mae dathlu lleoliad drwy ymchwilio i’r Gymraeg yn ganolog i’r prosiect. Cynhaliwyd gweithdai i ddatblygu cynnwys mewn lleoliadau cymunedol ac ysgolion ar hyd a lled y sir. Mae murluniau mawr wedi eu gosod yn Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst, gan greu llwybr o amgylch y sir fel rhan o brosiect LLENWI. Drwy brosiect LLENWI (sy’n cyfleu’r syniad o feddiannu gofod), mae waliau gwag wedi cael eu trawsnewid yn y gobaith o greu canolbwyntiau i gymunedau ac ymwelwyr, gan weithio gyda’r artist dwyieithog Tomos Jones a’r bardd Dr Rhys Trimble.

**4.16.6 Mwy na Geiriau**

4.16.6.1 Fframwaith Strategol y Llywodraeth ydi cynllun 5 mlynedd Mwy Na Geiriau 2022-2027 i gryfhau darpariaeth Gymraeg ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Ei nod yw cefnogi siaradwyr Cymraeg i gael gwasanaethau yn eu dewis iaith.

4.16.6.2 Mae’r cynllun yn seiliedig ar y themâu a ganlyn:

- Diwylliant ac arweinyddiaeth
- Cynllunio a pholisïau’r Gymraeg
- Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithle
- Rhannu arfer gorau a datblygu

4.16.6.3 Yn anffodus, nid yw’r Grŵp Llywio Mwy na Geiriau wedi cyfarfod ers tro ond bydd swyddogion o’r gwasanaeth yn ymuno â Fforwm Ein Llais Cymraeg yn y gobaith y bydd hynny’n galluogi mwy o gydweithio â’r gwasanaeth.

## 5.0 Cadw Cofnodion

### 5.1 Cwynion

5.1.1 Mae modd i’r cyhoedd wneud cwyn drwy wefan y Cyngor neu’n uniongyrchol at Reolwr Gwasanaeth y Gymraeg a Chyfieithu neu’r Swyddog Hyrwyddo a Datblygu’r Gymraeg. Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi ar system gwynion y Cyngor.

5.1.2 Ni chafwyd yr un gŵyn yn ystod 2024-2025.

### 5.2 Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg

5.2.1 Mae modd i’r cyhoedd gwyno’n uniongyrchol gyda Chomisiynydd y Gymraeg hefyd.

5.2.2 Ni chafwyd yr un ymchwiliad ei hanfon atom eleni.

## 6.0 Casgliad

6.1 Bu'n hynod o braf gweld cymaint o ddatblygiadau a llwyddiannau yn mynd o nerth i nerth yn ystod y flwyddyn.

6.2 Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiant ein gwersi Cymraeg unwaith eto a datblygiad ein Cynllun Sgwrsio. Mae hi'n wych clywed am gynnydd y dysgwyr wrth ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle a thu hwnt hefyd.

6.3 Bu hefyd yn wych gweld gymaint o ddigwyddiadau yn Gymraeg yn cael eu cynnal gan ein gwasanaethau, gyda llawer mwy ar y gweill dros y flwyddyn nesaf.